Rhaglen Ymgysylltu Ystyrlon | Meaningful Engagement Programme

Lansio Rhaglen Ymgysylltu Ystyrlon

Tîm Profiad ac Ymgysylltu â Chleifion

## Beth yw Ymgysylltiad Ystyrlon?

Mae Ymgysylltiad Ystyrlon yn rhyngweithiad rhwng dau neu fwy o bobl, sy'n fuddiol i bawb sy'n cymryd rhan. Gall fod mor syml â chael paned a sgwrs am rywbeth sydd o ddiddordeb i'r unigolyn arall, chwarae darn o gerddoriaeth a gwrando gyda'ch gilydd neu fynd am dro gyda'ch gilydd.

Diben ymgysylltu ystyrlon yw hyrwyddo gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei werthfawrogi, bod ganddo ymdeimlad o bwrpas a sicrhau ei fod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arno, yn cael ei gynnwys ac yn cael ei ddeall.

Mae'n bwysig dysgu cymaint ag y gallwch am yr unigolyn sy'n byw gyda Dementia a theilwra ymgysylltiadau i'r hyn sy'n golygu rhywbeth iddynt. Dylech ofyn cwestiynau fel beth maen nhw'n hoffi ei wneud? Beth nad ydynt yn ei hoffi? Ble roedden nhw'n gweithio? Oes ganddyn nhw unrhyw ddiddordebau? Gall cynnwys **gofalwyr a pherthnasau** a chwblhau dogfen 'Dyma Fi' eich helpu i ddeall a theilwra gweithgareddau a gweithgareddau ymgysylltu yn well i weddu i'r unigolyn.

## Briff:

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod ein cais a gyflwynwyd i NHS Charities Together er mwyn ymestyn ein Rhaglen Ymgysylltu Ystyrlon mewn Gofal Dementia wedi bod yn un llwyddiannus.

Trwy strategaeth gweithgaredd ystyrlon y cytunwyd arni drwy bartneriaeth, ein nod yw ymgorffori dull amlddisgyblaethol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, o fewn preswylfeydd pobl gan gynnwys amgylchedd yr ysbyty, cartrefi gofal, llety gwarchod, byw â chymorth, carchardai a chartrefi'r unigolion.

Bydd budd gweithio mewn partneriaeth, cael dull strwythuredig o weithio, ochr yn ochr â hyfforddiant, cymorth gan gymheiriaid, Cymdeithion Gwirfoddol Dementia a chysylltiadau cymdeithasol gwell yn ein galluogi i ymgysylltu'n ystyrlon gan ganolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae llawer o fanteision i roi cyfle i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon; mae'n rhoi strwythur a phwrpas i ddyddiau pobl, yn lleihau straen, yn lleihau rhwystredigaeth ac yn lleihau diflastod. Gall hefyd helpu i gynyddu rhyngweithio cymdeithasol pobl, lleddfu pryder a gwella lles corfforol ac emosiynol yn gyffredinol. Gall feithrin awyrgylch o obaith ac optimistiaeth, a all wella adferiad, lleihau hyd arhosiad, atal derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi, atal derbyniadau cynamserol i ofal hirdymor ac yn gyffredinol, mae'n gwella profiad pobl o ofal yn ogystal â lles staff.

Nod ein rhaglen yw datblygu strategaeth ystyrlon a'i chyflwyno ar draws ystod o leoliadau gofal yng Ngwent, gan sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau ymgysylltu ystyrlon a chyfleoedd dysgu ar gael.  Bydd y rhaglen yn gwella drwy fforwm gwrando a dysgu sy'n anelu at gefnogi staff, gwirfoddolwyr a gofalwyr gan eu galluogi i ennill sgiliau, gwybodaeth a hyder i ddarparu ymgysylltiad ystyrlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

**Pa ganlyniadau ydym ni'n eu disgwyl?**

**Profiad pobl.** Gwella profiad pobl sydd â dementia o ofal. Gwneir hyn drwy wella hygyrchedd adnoddau a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch ymgysylltu a gweithgareddau ystyrlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan ystyried eu diddordebau, eu hobïau a'u hanghenion. Cynhelir arolygon boddhad pobl i ddysgu beth yw canlyniadau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

**Profiad a Chymhwysedd Staff.** Dywed staff eu bod yn teimlo'n fwy hyderus a chymwys i ymgymryd â gweithgareddau ystyrlon o ganlyniad i hyfforddiant a chymorth arbenigol. Daw'r canlyniadau o arolygon staff.

**Profiad y Gofalwyr a'r Teulu**. Mae gofalwyr yn adrodd eu bod yn teimlo eu bod yn gallu rheoli ymddygiadau heriol yn well trwy weithgareddau dargyfeirio ystyrlon ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n well. Daw'r canlyniadau o arolygon gofalwyr a theuluoedd.

**Dysgu.** Gwella'r wybodaeth, y sgiliau, yr hyder a'r ddealltwriaeth o bwysigrwydd a manteision ymgysylltu a gweithgareddau ystyrlon i bobl sy'n byw gyda Dementia ar gyfer staff, gofalwyr (Ffurfiol ac Anffurfiol) a gwirfoddolwyr.

**Amgylchedd.** Defnyddio gwybodaeth, sgiliau a rhwydweithiau i weithio gyda gwahanol feysydd i nodi gwelliannau yn yr amgylchedd. Bydd y rhain yn cefnogi ymgysylltiad ystyrlon, yn benodol o fewn eu harbenigedd, cartrefi gofal, preswyl, ysbytai cyffredinol, gofal iechyd carchardai a lleoliadau cymunedol.

**Partneriaethau Rhwng Cenedlaethau.** Gweithio i adeiladu ar Bartneriaethau Rhwng Cenedlaethau gyda'r nod o ddod â phobl at ei gilydd mewn gweithgareddau pwrpasol sy'n fuddiol i'r ddwy ochr. Bydd y rhain yn hybu gwell dealltwriaeth a

pharch rhwng cenedlaethau ac yn cyfrannu at adeiladu cymunedau mwy cydlynol. Mae creu Partneriaethau Rhwng Cenedlaethau yn adeiladu ar yr adnoddau cadarnhaol sydd gan yr hen a'r ifanc i'w cynnig i'w gilydd ac i'r rhai o'u cwmpas.